CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced

326/51

**ASTUDIAETHAU BUSNES**

**BS6**

P.M. DYDD IAU, 22 Mehefin 2006

(1¾ awr)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen:

- cyfrifiannell;
- llyfr ateb 12 tudalen.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **bob** cwestiwn.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Papur synoptig yw hwn. Pwrpas y papur yw profi gwybodaeth ymgeiswyr am y cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar y pwnc a bydd hyn yn golygu integreiddio'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddysgwyd mewn gwahanol rannau o'r cwrs.

Dangosir y marciau sydd ar gael mewn cromfachau.

Asesir ymgeiswyr yn ôl ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn yr atebion h.y. strwythuro a chyflwyno syniadau; eglurder mynegiant; sillafu, atalnodi a gramadeg. Rhoddir hyd at dri marc am y cyfathrebu ysgrifenedig.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

Astudiwch y wybodaeth ganlynol am *Boots the Chemist* ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

## *BOOTS THE CHEMIST*

### HANES Y CWMNI

Agorwyd siop gyntaf *Boots* gan John Boot yn 6 Goose Gate yn Nottingham yn 1849, yn gwerthu meddyginiaethau llysieuol *(herbal)* i'r anghenus. Mab John, Jesse Boot, a ysgogodd yr ehangu cynnar a gwneud y cwmni yn un o gyflogwyr mwyaf Nottingham. Yn 1883 sefydlodd e'r busnes yn gwmni preifat, *Boot & Company Cyf*, gydag yntau'n gadeirydd ac yn rheolwr-gyfarwyddwr. Erbyn 1900 roedd gan *Boots* 250 o siopau ledled y wlad, a pharhaodd i ychwanegu lle *(capacity)* ffatri a warws, yn ogystal â chanolfannau ymchwil, yn y ddinas.

### Y PRESENNOL

Heddiw mae gan *Boots ccc* bron 1 400 o siopau yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon yn ogystal â 300 o Optegwyr *Boots*. O ran nifer yr allfeydd gwerthu, *Boots* yw'r adwerthwr mwyaf yn y wlad. Mae'n gwerthu digon o frwshys dannedd y flwyddyn i ymestyn o Nottingham i Glasgow a digon o ewyn ymolchi *(bubble bath) Essentials* y flwyddyn i lenwi 10 pwll nofio o faint Olympaidd. Mae *Boots* yn prosesu mwy na 550 miliwn o ffotograffau bob blwyddyn a'i frand ei hun o ffilm yw un o'r ddau fwyaf yn y DU. Yn ogystal â'i adwerthu, mae gan *Boots* weithrediadau gwerthiant a marchnata rhyngwladol ac mae'n datblygu ac yn marchnata ei frandiau ei hun hefyd – *Boots No.7* yw'r brand adwerthu mwyaf ym marchnad cosmetigau y DU. Erbyn hyn mae'r cwmni'n cyflogi 75 000 o bobl mewn 130 o wledydd ledled y byd.

Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r cwmni wedi cael pwysau prisio difrifol gan gadwynau uwchfarchnadoedd yn y DU. Yn ôl dadansoddwyr y farchnad stoc, mae *Boots* "wedi methu yn y gorffennol gyda gwahanol ymdrechion i amrywiaethu *(diversify)* y tu hwnt i'w weithrediadau fferyllol craidd. Erbyn hyn mae'r rhan fwyaf o siopwyr yn prynu eu cynhyrchion gofal iechyd pan fyddan nhw'n gwneud eu siopa bwyd. Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r cwmni wedi gweld yr uwchfarchnadoedd yn symud i mewn i'w faes ac yn erydu maint ei elw mewn pethau ymolchi, cosmetigau a meddyginiaethau dros-y-cownter. Bydd dadreoli meddyginiaethau presgripsiwn yn fwy yn hybu rhai fel *Tesco* i gynyddu nifer y fferyllfeydd yn eu siopau. Mae hyn yn debygol o leihau nifer y siopwyr *(footfall)* ymhellach yn *Boots*."

Mae canlyniadau hanner blynyddol diweddaraf y cwmni (Hydref 2005) wedi siomi'r farchnad stoc. Mae cynnydd o £45 miliwn yng nghost adnewyddu'r gadwyn stryd fawr wedi golygu bod elw cyn treth i lawr 9.6 y cant i £163 miliwn am hanner cyntaf y flwyddyn ar werthiant sydd 0.8 y cant yn unig i fyny ar £2 590 miliwn. Gyda gwerthiant tebyg-am-debyg i lawr 1.3 y cant a maint yr elw yn gostwng, y siarad yn *Boots* yw am fuddsoddi mewn isadeiledd *(infrastructure)* yng nghanol amgylchedd adwerthu anodd, ail-lansio amrywiaethau perchenogol *(proprietary ranges)* fel colur *No.7*, ac ailwampio hen siopau. Agorwyd saith siop newydd "cyrion y dref" yn ystod y chwe mis diwethaf a gostyngwyd prisiau 700 o nwyddau 11 y cant ar gyfartaledd mewn ymgais i barhau i fod yn gystadleuol.

## STRATEGAETH BRESENNOL

Mae'r cwmni'n disgrifio ei strategaeth bresennol fel a ganlyn: "Rydym wedi bod yn gweithio i 'roi *the chemists* yn ôl i mewn i *Boots*' – cydnabyddiaeth mai gofal iechyd sydd wedi bod wrth wraidd ein busnes erioed a bydd yn parhau i fod felly. Rydym wedi torri prisiau ar ein nwyddau, newid oriau agor, rhoi mwy o siopau mewn mannau lle mae cwsmeriaid eisiau siopa, ac ail-lansio nwyddau allweddol. Rydym yn y broses o 'Adeiladu *Boots* gwell'; un sy'n wir i'w etifeddiaeth *(heritage)*, cwmni y mae cenedlaethau olynol wedi ymddiried ynddo am mai yntau yw 'Yr Arbenigwr Iechyd a Harddwch'." Meddai datganiad cenhadaeth y cwmni: "Mae *Boots* yn amcanu i fod y lle ar gyfer cwsmeriaid iechyd a harddwch. Rydym yn dymuno sicrhau arweinyddiaeth y farchnad yn y DU ac adeiladu ar lwyddiant cynyddol ein brandiau yn rhyngwladol." Er hynny, yn ddiweddar mae *Boots* wedi gwerthu rhai o'i frandiau adnabyddus fel *Nurofen*, *Clearasil* a *Strepsils* i gwmni arall, *Reckitt Benckiser*, am £1.9 biliwn.

### Y Cerdyn Mantais

Mae *Boots* yn gweithredu'r cardiau teyrngarwch cwsmeriaid sydd â'r gefnogaeth fwyaf *(most widely subscribed)* yn y Deyrnas Unedig. Lansiwyd Cerdyn Mantais *Boots* ym mis Medi 1997 gan ddefnyddio technoleg cerdyn smart ac mae'n cynnig budd o 4c yn y bunt i ddeiliaid cardiau. Mae'r cwmni'n honni bod mwy nag 11 miliwn o ddefnyddwyr gweithredol o'r cerdyn erbyn hyn a bod cerdyn gan hanner yr holl fenywod dros 16 oed. Mewn gwirionedd, mae 91% o ddeiliaid Cardiau Mantais yn fenywod.


Trwy'r Cerdyn Mantais, mae *Boots* yn gallu casglu data gwerthfawr am yr unigolyn: pa mor aml y byddant yn siopa, ble maent yn siopa, y cynhyrchion y byddant yn eu prynu, y cynhyrchion y byddant yn gwario eu pwyntiau arnynt, yr hyrwyddiadau a'r buddion sy'n eu denu, faint y byddant yn ei wario ar gyfartaledd. Mae'r cerdyn yn cofnodi eu manylion personol hefyd, e.e. enw, oed a rhyw. Mae'r cerdyn yn defnyddio technoleg Sglodyn Smart fel y gellir ei ddefnyddio mewn unrhyw siop *Boots*. Pan fydd cais yn cael ei brosesu, bydd yr holl bwyntiau a gasglwyd gan y cwsmer, rhif adnabod unigryw y cwsmer ac enw'r cwsmer yn cael eu cofnodi ar y cerdyn trwy'r sglodyn.

Er gwaethaf y manteision hyn, nododd un adroddiad annibynnol fod "y Cerdyn Mantais wedi methu denu cwsmeriaid newydd i *Boots* mewn niferoedd sylweddol. Yn wir, am fod *Boots* wedi canolbwyntio ei ymdrechion hyrwyddo trwy'r cerdyn (gyda 'diwrnodau pwyntiau dwbl' a phethau tebyg), mae wedi gyrru ymaith rhai o gwsmeriaid llai teyrngar y cwmni. Maen nhw wedi cael eu denu gan hyrwyddiadau mwy traddodiadol 'arian i ffwrdd' mewn lleoedd eraill. Fodd bynnag, mae gwariant gan ddefnyddwyr cardiau wedi cynyddu."

## CYDSODDIAD *(MERGER)* AG *ALLIANCE UNICHEM*

Mae *Boots* yn awr yn cynllunio cydsoddiad £6.7 biliwn ag *Alliance Unichem* sydd â 939 o siopau yn y DU yn ogystal â chyfran o 27% o farchnad gyfanwerth cyffuriau. Prif weithredwr *Boots*, Richard Baker, fydd yn rhedeg y cwmni newydd, a fydd yn cael ei alw'n *Alliance Boots*, gyda Syr Nigel Rudd yn parhau yn gadeirydd. Yn amodol ar gymeradwyaeth gan gyfranddalwyr a rheolyddion *(regulators)* cystadleuaeth – ac os na fydd unrhyw gynigion eraill – bydd y cydsoddiad yn creu cawr gofal iechyd â 2 600 o siopau, fydd bedair gwaith cymaint â'i gystadleuydd agosaf, â gwerthiant o fwy na £13 biliwn.

**<u>Tabl 1</u> – Nifer yr allfeydd adwerthu a berchenogir gan y prif siopau cadwyn**




FFYNHONNELL: *MORGAN STANLEY, LEHMAN BROTHERS*, SWYDDFA MASNACHU TEG, ADRAN IECHYD

Bydd y cydsoddiad yn gweld brand *Boots* yn cael ei gyfuno ag arbenigedd a rhwydwaith dosbarthu *Alliance Unichem*, yr ail fwyaf o ddosbarthwyr fferyllol Ewrop, gyda gweithrediadau ledled gorllewin Ewrop a'r Dwyrain Canol.

O ran trosiant, bydd *Alliance Boots* yn drydydd yn y gynghrair adwerthu y tu ôl i *Tesco* a *Great Universal Stores (GUS)*. Bydd gan y cwmni cyfunol fwy o rym bargeinio gyda chyflenwyr, yn ei alluogi i yrru prisiau i lawr a chystadlu'n well â'r uwchfarchnadoedd, sydd wedi erydu cyfran *Boots* o'r farchnad.

Mae Stefano Pessina, is-gadeirydd a chyfranddaliwr mawr *Alliance Unichem*, wedi'i restru'n 387fed ar restr pobl gyfoethocaf y byd gyda chyfoeth o $1.7 biliwn (£965 miliwn). Mae gan Pessina sgiliau sylweddol o ran gwneud dêl – yn 1998 cydsoddodd ef *Alliance Santé* ag *Unichem*. Erbyn 2010 mae ef eisiau i hanner derbyniadau'r grŵp ddod o'r tu allan i Brydain, o'i gymharu â chwarter ar hyn o bryd. "Rwy'n sicr y byddwn yn wir yn gallu bod y cwmni gofal iechyd gorau yn y byd," meddai.

Mae *Boots* wedi cael trafferth yn y blynyddoedd diwethaf yn erbyn cystadleuaeth lem *(tough)* gan uwchfarchnadoedd ac, yn fwy diweddar, oherwydd arafu yng ngwariant defnyddwyr. "Bydd y ddau gwmni'n ehangu'n gyflymach nag y gall y naill na'r llall ei wneud ar wahân," meddai prif weithredwr *Boots*, Richard Baker, a fyddai'n cadw'r teitl hwnnw yn y grŵp cydsoddedig.

**CYFRANDDALWYR A RHEOLWYR**

Bydd yn rhaid i Syr Nigel Rudd, cadeirydd *Boots*, weithio'n galed i werthu ei ddêl i'r cyfranddalwyr: mae ymateb cyfranddalwyr i'r ddêl arfaethedig *(proposed)* wedi cael ei ddisgrifio fel bod ychydig fel ceisio gorfodi plant i fwyta bresych. "Ni waeth pa mor dda y dywedwch wrthynt y mae i'w hiechyd, ni chânt eu temtio."

Yr wythnos diwethaf, fe wnaeth rheolwyr o'r 300 mwyaf o siopau *Boots* ymgynnull yn Nottingham ar gyfer eu cynhadledd flynyddol cyn y Nadolig. Mewn gwrthgyferbyniad llwyr â buddsoddwyr amheugar *(sceptical)* yn y Ddinas, roedd rheolwyr *Boots* yn optimistaidd. "Mae'n newyddion gwych. Mae'n rhoi llawer o gyfleoedd i ni," meddai Paul Smith, rheolwr ardal a ymunodd â *Boots* o *Asda* ym mis Chwefror. "Mae'n gwneud gwir synnwyr masnachol," meddai rheolwr ardal arall.

**Y GWEITHLU A CHYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL**

"Gwelwn tua 1,000 o golledion swyddi yn deillio o'r cydsoddiad ag *Alliance Unichem*," meddai cadeirydd *Boots* Nigel Rudd wrth ohebwyr, gan ychwanegu "nad oedd hynny'n nifer sylweddol" o'i gymharu â'r 100 000 o weithwyr yn y grŵp cyfunol.

Dywedodd undeb y gweithwyr siop *USDAW* ei fod yn ceisio cael trafodaethau brys gyda rheolwyr yn y ddau gwmni am oblygiadau'r ddêl. Meddai John Hannett, ysgrifennydd cyffredinol *USDAW*: "Mae gennym gytundebau a wnaed ers tro gyda'r ddau gwmni sy'n newyddion da i'n haelodau gan y byddwn yn gallu defnyddio'r perthnasoedd cadarnhaol *(positive)* hynny i ddiogelu buddiannau *(interests)* ein haelodau."

Mae Stephen Lehane, y cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, yn optimistaidd am y dyfodol ac mae'n dweud bod "yr ymateb cyffredinol" i'r cyhoeddiadau am y cydsoddiad wedi bod yn gadarnhaol. "Nid ydym yn gweld effaith y cydsoddiad fel gweithred fawr o leihau maint *(downsizing)*, mae'n ymwneud fwy â chreu . . . cyfleoedd newydd."

Mae gan *Boots* agwedd oleuedig tuag at drin ei weithwyr ac mae wedi derbyn canmoliaeth am amrywiaeth ei weithlu, ei ddiwylliant tîm cadarnhaol a'i gefnogaeth o weithio hyblyg. Dyma hefyd oedd y cwmni cyntaf i weithredu cynllun rhannu swyddi. Mae *Boots* yn recriwtio mwy o raddedigion fferylliaeth nag unrhyw gyflogwr arall yn y DU, ac mae parch mawr iawn at ei raglen gyn-gofrestru *(pre-registration)* un flwyddyn (yr hyn sydd gan y fferyllydd sy'n cyfateb i swydd meddyg preswyl *(internship)*).

Enwebwyd *Boots* ar gyfer Gwobr Busnes yn y Gymuned yn 2003. Roedd ymhlith y busnesau cyntaf i gefnogi polisïau sy'n gyfeillgar i'r teulu ar gyfer ei weithwyr. Yn 2001, *Boots* oedd y sefydliad cyntaf i gynnig achrediad ffurfiol i'r staff am eu gwaith yn y gymuned. Dechreuodd y cwmni gynllun 'Sgiliau am Oes' a oedd yn cynnig cyfle i weithwyr ymwneud â gweithgareddau cymunedol yn ystod amser y cwmni. Yn 2002, treuliodd gweithwyr *Boots* 50 000 o oriau ar weithgareddau gwirfoddol, sy'n cyfateb i £500 000.

Hefyd mae'r cwmni'n cefnogi ac yn datblygu negeseuon hybu iechyd yn y gymuned. Mae wedi ymuno ag ymddiriedolaethau ysbyty'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol *(NHS)* i weithredu ei brojectau niferus. Mae un cynllun yn darparu gweithdai am ddim i fenywod sydd â chanser. Mae un arall yn hybu triniaethau iechyd a harddwch sydd wedi'u hamcanu yn arbennig at gleifion hŷn a grwpiau cymunedol ehangach gan gynnwys pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl.

Yn ôl y cwmni. "Mae rhedeg busnes mewn modd cymdeithasol gyfrifol wrth wraidd *Boots*. Ers mwy na 100 mlynedd rydym wedi cydnabod bod buddiannau *Boots* a'i holl randdeiliaid *(stakeholders)* yn dibynnu ar ei gilydd. Yn 1919, ysgrifennodd Jesse Boot: 'Mae cyfeillach *(fellowship)* mewn adloniant, cyfeillach mewn delfrydau *(ideals)*, cydymdeimladau cyffredin a dynoliaeth gyffredin yn ein rhwymo ni gyda'n gilydd ac mae beth bynnag sy'n meithrin yr undeb hapus hwn yn werthfawr.' Mae *Boots* heddiw yn teimlo'n union yr un fath. Mae hidio *(caring)* yn rhan o'n hetifeddiaeth. Bydd yn rhan o'n dyfodol bob amser."



**Trosodd.**

**CYLLID Y CWMNI**

**<u>Tabl 2</u> – Gwerthiant ac Elw Gweithredol *Boots* am y 12 mis hyd at 31 Mawrth**

| 12 mis hyd at 31 Mawrth | 2005 £miliwn | 2004 £miliwn |
|---|---|---|
| **Gwerthiant** | **4 651** | 4 479 |
| **Elw net cyn treth** | **470** | 533 |

**<u>Tabl 3</u> – Mantolen *Boots* ar gyfer 31 Mawrth**

| | **2005 £miliwn** | 2004 £miliwn |
|---|---|---|
| **<u>Asedau Sefydlog</u>** | **1 876** | 1 781 |
| **<u>Asedau Cyfredol</u>** | | |
| Stoc | **714** | 691 |
| Dyledwyr | **733** | 682 |
| Arian yn y Banc ac Mewn Llaw | **129** | 350 |
| **<u>Cyfanswm yr Asedau Cyfredol</u>** | **1 576** | 1 723 |
| Llai Rhwymedigaethau Cyfredol | **1 074** | 1 135 |
| Asedau Cyfredol Net | **502** | 588 |
| Cyfanswm yr Asedau llai Rhwymedigaethau Cyfredol | **2 378** | 2 369 |
| Llai Rhwymedigaethau Tymor Hir | **768** | 561 |
| **<u>Asedau Net</u>** | **1 610** | 1 808 |
| | | |
| **Cronfeydd Cyfranddalwyr** | | |
| Cyfalaf Cyfranddaliadau | **765** | 766 |
| Elw Cadw | **845** | 1 042 |
| **<u>Cyfanswm Cronfeydd Cyfranddalwyr</u>** | **1 610** | 1 808 |

*Addaswyd o: www.guardian.co.uk, www.timesonline.co.uk, www.pharmj.com, www.boots.co.uk*

**1.** Eglurwch fanteision **ac** anfanteision cerdyn teyrngarwch, fel y Cerdyn Mantais, i fusnes, o'i gymharu â dulliau eraill o hybu gwerthiant. [10]

**2.** Eglurwch sut mae agwedd oleuedig *Boots* tuag at drin ei weithwyr (llinell 112) yn debygol o effeithio ar eu cymhelliant. [10]

**3.** Dadansoddwch a gwerthuswch berfformiad ariannol *Boots*. [10]

**4.** Trafodwch y rhesymau posibl pam mae rheolwyr *Boots* o blaid y cydsoddiad arfaethedig ag *Alliance Unichem*. [10]

**5.** "Mae hidio yn rhan o'n hetifeddiaeth. Bydd yn rhan o'n dyfodol bob amser." (Llinellau 135-136.)
I ba raddau y gall busnes, fel *Boots*, fforddio cael agwedd mor foesegol yn yr amgylchedd busnes cystadleuol sydd i'w gael heddiw? [10]